# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 20 Rhagfyr 2023

Amser: 09.35 - 11.20

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://senedd.tv/cy/13820

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
| --- | --- |
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Laura Anne Jones AS (yn lle Peter Fox AS) |
| Tystion: | Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol<br>Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol, Llywodraeth Cymru<br>Emma Watkins, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc) |

## Cofrestru (09.00-09.15)

## Rhag-gyfarfod preifat (09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Peter Fox AS.

1.3 Roedd Laura Anne Jones AS yn dirprwyo ar ran Peter Fox AS.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 PTN 1 – Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Papurau tystiolaeth yn cefnogi Cyllideb Ddrafft 2024-25 - 27 Hydref 2023

2.2 PTN 2 - Llythyr gan y Prif Weinidog: Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid ar y Bil Bwyd (Cymru) Argymhelliad 1 - 15 Tachwedd 2023

2.3 PTN 3 - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau: Sesiwn dystiolaeth ar gyfer Deiseb P-06-1358 Adolygu'r cyllid annigonol ar gyfer ysgolion yng Nghymru - 22 Tachwedd 2023

2.4 PTN 4 - Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 - Memorandwm Esboniadol Diwygiedig - 22 Tachwedd 2023

2.5 PTN 5 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Y Grant Setliad Refeniw – 29 Tachwedd 2023

2.6 PTN 6 - Bil Seilwaith (Cymru): Ymateb Llywodraeth Cymru - 1 Rhagfyr 2023

2.7 PTN 7 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Datganiad o egwyddorion i gyrff a ariennir yn uniongyrchol – 14 Tachwedd 2023

## 3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Sesiwn dystiolaeth 1

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol; Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorlys; ac Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllideb a Busnes y Llywodraeth.

3.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar y canlynol:

- Sut mae datchwyddwr CMC a mynegeion mynegai CPI yn gweithio, a pham ddewisodd Llywodraeth Cymru y mynegai CPI wrth gyfrifo chwyddiant, yng nghyd-destun y Gyllideb Ddrafft.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.